RHONDDA CYNON TAF A MERTHYR TUDFUL

Gwasanaeth Seicoleg Addysg

Hynwyddo'r datblygiad seicolegol gorau posib i blant, pobl ifainc, teuluoedd a sefydliadau

2014 - 2015

STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

"Mae'r seicolegydd addysg wedi ymateb i bryderon rhieni mewn ffordd ofalgar, broffesiynol ac effeithiol"

"Mae'r cyngor a'r gefnogaeth wedi bod yn ardderchog. Roedd y strategaethau gafodd eu hawgrymu yn ddefnyddiol dros ben"

"Cyfathrebu a pherthynas waith da iawn rhwng yr ysgol a'r seicolegydd addysg. Cyfarfodydd clwstwr yn llwyddiannus iawn a'r seicolegydd addysg yn gefnogol dros ben"

Beth yw seicolegydd addysg?

Mae seicolegwyr addysg yn seicolegwyr cymwys sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifainc 0-19 oed mewn cyd-destunau amrywiol. Rydyn ni hefyd yn gweithio'n helaeth gyda rhieni/cynhalwyr, staff ysgol a phobl broffesiynol eraill.

Ein datganiad o fwriad:
"Defnyddio seicoleg yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau datblygiad, lles a'r cyflawniad gorau posib i bobl ifainc Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful."

Sut rydyn ni'n rhoi ein gwasanaeth

- Mae dyraniad blynyddol i ysgolion
- Bydd y rhan fwyaf o dasgau mewn perthynas â'r ysgol yn cael eu cwblhau o fewn yr amser yma
- Bydd seicolegydd addysg yn cael ei glustnodi i bob ysgol, a'n bwriad ni yw i'r person yna aros i weithio gyda'r ysgol am y flwyddyn er mwyn caniatáu datblygiad perthnasau gwaith agos
- Mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd rydyn ni'n darparu lleoliadau bob blwyddyn i seicolegwyr o dan hyfforddiant. Mae'u gwaith nhw i gyd yn cael ei oruchwylio'n agos
- Mewn partneriaeth â phobl broffesiynol eraill gan gynnwys carfanau arbenigol o fewn Addysg a Dysgu Gydol Oes, Gwasanaethau i Blant, sefydliadau cymunedol a chydweithwyr yn yr adran Iechyd
- Rydyn ni'n gweithio'n hyblyg ac yn cynnig dewis eang o wasanaethau i gynorthwyo ysgolion

Faint o amser fydd ysgolion yn ei gael?

Ein bwriad yw dyrannu ein hamser ac adnoddau cyfyngedig mor deg â phosib, yn seiliedig ar anghenion. Dyma'r ffactorau sydd yn cael eu defnyddio i wneud hyn:

- Nifer y plant ar y gofrestr
- Cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim
- Nifer y plant ar gofrestr AAA yr ysgol

Bob blwyddyn, gall hyd yr amser mae ysgol unigol yn ei dderbyn amrywio. Bydd hyn yn adlewyrchiad o anghenion ac amgylchiadau newidiol yr ysgol a'r awdurdod lleol.

Pa wasanaethau rydyn ni'n eu darparu?

Rydyn ni'n gweithredu mewn modd amrywiol a hyblyg, gan anelu at weithio yn y ffordd fwyaf addas i bob sefyllfa. Mae'r math o waith yn cynnwys:

- **Ymgynghori a rhoi cyngor**
  Materion unigol, grŵp, teuluol ac ysgol gyfan
- **Asesiadau Seicolegol**
  Defnyddio ystod o ddulliau i lywio ymyriadau
- **Ymyriadau Seicolegol**
  Hyrwyddo lles seicolegol, datblygiad cymdeithasol, emosiynol a datblygiadol a chodi safonau addysg
- **Cyflwyno datblygiad a hyfforddiant proffesiynol**
  Er mwyn medru cefnogi dysgu, gwybodaeth ac ymarfer pobl eraill
- **Ymchwil a gwerthuso**
  I ddefnyddio canlyniadau i lywio ymarfer neu weithredu'r dyfodol

Rydyn ni hefyd yn arwain ac yn cymryd rhan mewn amryw o gylchoedd aml-asiantaeth a phaneli

Beth arall allwn ni'i gynnig?

Yn ogystal â gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion, mae seicolegwyr addysg yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar draws yr Awdurdod Lleol. Dyma rai enghreifftiau:

- Gweithio gyda phlant a phobl ifainc sydd ar yr ymylon: Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, Addysg Ddewisol yn y Cartref ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol
- Y rhai dan ofal 'Darpariaethau y tu allan i'r Sir' neu sydd ddim yn mynychu ysgol
- Cefnogaeth mewn perthynas â digwyddiadau argyfyngus a phrofedigaeth
- Ymyriad cynnar – gwaith ataliol gyda phlant ifainc iawn, cyngor i'r ysgol cyn derbyn disgyblion, cyngor i athrawon ynglŷn ag ymyriad a chysylltiad cynnar a gwaith uniongyrchol gyda rhieni yn yr ysgol
- Datblygu a hyrwyddo dull gweithredu strategol i les, yn arbennig Cynorthwywyr Llythrennedd Emosiynol (ELSA), agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu (SEAL), a chynllun peilot ar asesu lles
- Sesiynau 'galw heibio' i rieni
- Sesiynau 'galw heibio' i weithwyr proffesiynol
- Cyfarfodydd clwstwr i gefnogi'r Cydlynydd Addysg Anghenion Arbennig (SENCo), y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo) a Chyllid Anghenion Ychwanegol (ANF)
- Mae gan bob seicolegydd addysg faes arbennig. Mae'r rhain yn amrywiol ac yn cynnwys: Plant sy'n derbyn gofal (LAC) • Anhwylderau yn y sbectrwm awtistig (ASD) • Anawsterau Dysgu Penodol (SpLD) • Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD) • Lles • Rhianta • Blynyddoedd Cynnar • Cyfrwng Cymraeg • Lleferydd ac iaith • Hunanladdiad a hunan-niwed • Iechyd y meddwl

Monitro

Rydyn ni wedi ymrwymo i:

- Asesu effaith ein gwaith yn nhermau canlyniadau cadarnhaol i blant
- Darparu gwasanaeth 'gwerth am arian' trwy fonitro'n gweithgareddau'n agos
- Ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth
- Derbyn gwerthusiadau defnyddwyr gwasanaeth a gweithredu arnyn nhw

Er mwyn rhoi gwasanaeth proffesiynol o safon uchel, mae angen i seicolegwyr addysg weithio mewn partneriaeth â'r ysgol.

Gall ysgolion ddisgwyl i Seicolegwyr Addysg:

- fod yn gefnogol
- bod yn hawdd mynd atyn nhw
- canolbwyntio ar y plentyn, y rhiant a'r ysgol
- bod yn ffrindiau beirniadol
- ymateb i geisiadau am gymorth o fewn 40 o ddiwrnodau gwaith lle bynnag y bo'n bosibl
- darparu ymatebion ysgrifenedig (e.e. adroddiadau) o fewn 20 diwrnod gwaith i'r ymweliad olaf

Byddwn ni'n cydweithio gydag ysgolion a gwasanaethau eraill er mwyn...

- datblygu amlinelliad cynllun gwaith am y flwyddyn mewn trafodaeth â'r Cydlynydd Addysg Anghenion Arbennig
- ymgynghori a chyd-ddatrys problemau gydag aelodau staff allweddol
- codi safonau
- cynnig cyfraniad i raglen hyfforddiant yr ysgol
- gwella lles plant, pobl ifainc ac oedolion yn ein hysgolion
- hyrwyddo cyfleoedd cyfartal
- cyfrannu tuag at wella'r ysgol

Cyn i Seicolegydd Addysg weithredu, mae'n hanfodol bod yr ysgolion yn:

- Rhannu pryderon gyda rhieni a sicrhau cytundeb llawn
- Cwblhau ffurflen gais am gynnwys sydd wedi cael ei rhannu â'r rhieni ac yn cynnwys eu caniatâd ysgrifenedig
- Atodi dau Gynllun Addysg Unigol (IEP)/ Cynllun Ymddygiad Unigol (IBP) wedi'u cwblhau

Byddai'n ddefnyddiol petai:

- Amser yn cael ei neilltuo i'r Seicolegydd Addysg gwrdd â'r person/bobl mwyaf dan sylw
- Lle tawel ar gael ar gyfer ymgynghori â'r staff/disgyblion/ rhieni yn ystod yr ymeliad â'r ysgol
- Gwybodaeth berthnasol ar gael e.e Cynlluniau Addysg Unigol, data asesu
- Y plentyn yn cael cyfle i ddweud beth sydd ar ei feddwl
- Pob cais yn cael ei drafod gyda seicolegydd addysg yr ysgol cyn ei anfon at y gwasanaeth

Beth yw'r camau nesaf?

- Bydd eich seicolegydd addysg yn cysylltu â chi

Rhondda Cynon Taf
Gwasanaeth Seicoleg Addysg
Tŷ Trevithick
Abercynon
Aberpennar
Rhondda Cynon Taf
CF45 4UQ
Ffôn: 01443 744000

Merthyr Tudful
Gwasanaeth Seicoleg Addysg
Uned 5
Parc Busnes y Triongl
Pentre-bach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ
Ffôn: 01683 724616

Rydyn ni'n croesawu adborth, yn ffurfiol neu'n anffurfiol, ynglŷn â'n gwasanaeth.